

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Robert Henry Roberts (Cefn Meiriadog) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Arrowe Park, fel ag y mae Kate Davies (Llansannan) yn Ysbyty Glan Clwyd ac Elizabeth Jones (Groes) yn yr Inffirmari. Cyflwynwn y tri i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y bydd yn gwmni ac yn gysur iddynt y dyddiau hyn. Cafodd Edwina Davies (Nantglyn) lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos hefyd. Cofiw'n amdani hithau yn ein gweddïau a hyderwn y bydd yn teimlo'n well yn fuan iawn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Selwyn Davies, Mrs Menna Owen a Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House). Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd gan ddiolch amdanynt ac am y gofal y maent yn ei dderbyn.

I ddo

- **CYMDEITHAS CEFN BERAIN** yn cyfarfod nos Lun, Mawrth 9fed am 7.30 (lleoliad i'w gadarnhau). Sgwrs a Chân efo Robat Arwyn. Dowch yn llw.
- **PWYLLGOR ADEILADAU CAPEL COFFA HENRY REES** nos Fawrth, Mawrth 10fed am 7.30.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng nghwmni Mrs Nia Royles, Trelawnyd yng Nghapel Cefn Meiriadog nos Fercher, Mawrth 18fed am 7.30.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Ebeneser, Rhuddlan nos Iau, Mawrth 19eg. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a thros glwyddir y llywyddiaeth i'r Parch. Wayne Roberts.
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 2il, ac Ebrill 2il – 6ed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 222 0201 / www.wordaliveevent.org
- **LLANW** – Cyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad yng ngŵyl Gristnogol Llanw yng Nghricieth rhwng Ebrill 6ed-10fed. Y siaradwr yn oedfaon y bore fydd Dr Rhodri Glyn, a bydd siaradwyr gwahanol yn arwain oedfaon yr hwyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan: www.llanw.org.
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Festri Capel Mawr, Dinbych ar Ebrill 28fed. Y siaradwr gwadd fydd y Parch. Christopher Prew.
- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 5ed- am 10.00. Y siaradwr fydd Ei Anrhydedd Eifion Roberts a'r Parch. John Gwilym Jones. Croeso i bawb.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Llandudno dydd Mawrth, Mai 12fed. Mwy o fanylion i ddilyn.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Exodus 20:1-6 (BCND tud.68 / BCN: tud.62)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 1^{af} Mawrth 2015

Darlleniad y Dydd

Mathew 18:1-5

(BCND tud.21 / BCN: tud.19)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org


Bore da ar ddydd Gŵyl Dewi Sant! Pa mor bwysig ydi hi i ni fel Cymry gofio tybed? W. Ambrose Bebb ddywedodd: “Myfyriwn yn ddyfnach yn ein hanes. O'n gorffennol y daw goleuni inni. Tynnwn wersi ohoni.”

Wrth feddwl am boblogaeth fawr y byd a nifer y rhai sy'n medru'r iaith Gymraeg, mae'n amlwg fod hyn yn eithriadol o bwysig i ni – sy'n ei medru – gofio hanes ein cenedl fach ein hunain. A phan feddyliwn ni fod y byd yn newid mor gyflym, mae'n bwysig iawn i ni gofio o ble y daethom a ‘thynnu gwersi’ o'n gorffennol.

Rhybuddiodd Rhodri ni nos Sul i beidio, er hynny, â gwneud eilun o'n hanes. Fel pob peth gwerthfawr arall, ein harwain ni at Dduw a ddylai ein hanes hefyd neu troi'n eilun a wnaiff o er i ni gael y cymhelliad gorau dros ei warchod.

Wrth edrych yn ôl dros hanes Cymru felly, fe welwn Dduw ar waith yn galw ac yn llywio hanes ein gwlad trwy roi pobl o ddawn arbennig i ni. Rwy'n rhyfeddu'n gyson cymaint yw dylanwad y Cymry a gododd Duw o blith y genedl fechan hon dros y canrifoedd – ac mae Dewi yn eu plith. Cafodd rai ddylanwad ar Gymru, eraill ar y byd, ac mae'n diolch ni yn codi o'r galon i Dduw amdanynt.

Mae gen i gywilydd deud hefyd nad ydw i'n gwybod fawr ddim am Oes y Seintiau – y cyfnod cynnar o sefydlu celloedd o gredinwyr a ddatblygodd wedyn yn rwydwaith o fynachlogydd a fu'n gwasanaethu eu cymunedau ac yn darparu gofal a nodded i gleifion a phererinion. Bu'r celloedd yma'n oleuni trwy'r Oesoedd Tywyll nes daeth Harri'r wythfed a'i giwed i'w diddymu yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Pan fyddwn yn gwisgo'r cennin Pedr, cofiwn roi diolch i Dduw am Dewi oherwydd “Heb Dduw, heb ddim.” Ni fyddai Dewi na'r un o'r saint wedi llwyddo oni bai fod Duw, trwy ei Ysbryd Glân wedi eu bendithio ac ni fyddai cof amdanynt yn unman. Wrth i ni ddathlu hefyd, cofiwn weddio “dros Gymru'n gwlad”. Dyma un o'r ‘pethau bychain’ (sydd yn beth mawr mewn gwirionedd) y medrwn ni bob un ei wneud dros Gymru – gweddio am ymweliad arbennig o'r Ysbryd Glân a'i ddwyfol allu i'n harwain eto at Iesu, gwrthrych gogoneddus ffydd fywiol y saint.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Aneurin

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 1^{af}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 3^{ydd}
- Mercher – 4^{ydd}
- Iau – 5^{ed}
- Gwener – 6^{ed}
- Sadwrn – 7^{fed}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
 - **Adnabod yr Angen** yn Festri Llansannan am 8.00.
 - **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
 - **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
 - **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn Festri Capel Tegid, Y Bala. (Paned am 10.00, y darlithoedd o 10.30 – 4.00.)
 - **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 1^{af}
- Mercher – 4^{ydd}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
 - Bydd cyfarfod o'r Gymdeithas Undebol yng nghwmni Lona Mason o'r Llyfrgell Genedlaethol yn Neuadd Goffa, Llanfair Talhaiarn am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
 - Cynhelir Dathliad Gŵyl Ddewi Cymdeithas Cefn Meiriadog gyda Chymdeithas Trefnant yn diddori a swper i ddilyn.
 - Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 11.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 1^{af}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
 - Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 1^{af}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
 - Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Saron ac ym Mheniel am 10.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yn Saron ac ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma – 1^{af}
- Iau – 5^{ed}
- Gwener – 6^{ed}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
 - Dydd Jangl. Dewch am banded **erbyn 11.00** a bydd cynrychiolydd o Age Cymru yno i godi ymwybyddiaeth am “scams”, sef y galwadau ffôn, llythyrau, a'r negeseuon ebost ‘niwsans’ a dderbyniwn yn gyson. Croeso i unrhyw un ddod draw. Bydd cinio fel arfer oddeutu 12.00.
 - Bydd Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn y Festri am 7.30.
 - Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi y Gymdeithas **yn y Festri** am 7.00. Yn dilyn y swper, bydd adloniant gan Eilir Rowlands a'i griw. Enwau ac addewidion bwyd i Elen, Yr Erw (870269) neu Rhys Dafis (870362) erbyn nos Sul, Mawrth 1af, os gwelwch yn dda.
 - Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Henllan a Groes

- Sul yma – 1^{af}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Groes am 10.00 a bydd Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00 o dan arweiniad Aneurin. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
 - Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 1^{af}
- Iau – 5^{ed}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.
 - Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso i bawb!
 - Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.